



**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David

## **SE6: Fformat ac Aelodaeth y Panel Adolygu Achos (Addasrwydd i Astudio)**

1.1 Fel arfer, aelodau Panel Adolygu Achos fydd y canlynol:

- Cadeirydd: aelod uwch priodol o'r staff
- Cynrychiolwyr staff
- Cynrychiolaeth allanol (fel y bo'n briodol)
- Un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Sylwer y byddai nifer y cynrychiolwyr staff yn ddibynnol ar yr achos unigol, a byddai bob amser yn lleiafswm yr unigolion yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn darparu'r mewnbwn angenrheidiol i gefnogi'r myfyriwr. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn amrywio rhwng 3 a 5 unigolyn, ond gellid cynyddu'r aelodau pe ystyrir bod hyn yn briodol.

Cofnodir yr achos gan unigolyn sy'n gweithredu'n Ysgrifennydd i'r Panel Adolygu Achos.

1.2 Ni fydd un aelod arall o'r staff na, lle bo'n bosibl, y Cadeirydd wedi ymwneud yn flaenorol â'r achos penodol nac wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr dan sylw. Dewisir aelodau eraill o'r staff ar sail eu gwybodaeth am achos y myfyriwr a/neu eu gwybodaeth a'u profiad o broblemau penodol o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Cymerir gofal i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn aelodaeth y Panel Adolygu Achos.

1.3 Mae'n bosibl defnyddio staff o'r Grŵp PCYDDS ehangach neu ddefnyddio aelodau panel allanol priodol.

1.4 Ni fydd yn bosibl i'r swyddog o Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu'n aelod o'r Panel Disgyblu gynrychioli unrhyw barti yn ystod unrhyw gam o'r broses Addasrwydd i Astudio.

1.5 Gall y panel geisio cefnogaeth gan gynghorwyr allanol eraill.

1.6 Gall union fformat y Panel Adolygu Achos amrywio'n ôl amgylchiadau'r achos. Hysbysir pob parti am fformat y cyfarfod, fel arfer heb fod yn llai na deng niwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod o'r panel.

1.7 Fel arfer bydd fformat y Panel Adolygu Achos fel a ganlyn:

- Aelodau'r Panel Adolygu Achos yn cwrdd ar wahân heb fod y myfyriwr na'r Swyddog Achosion yn bresennol i ystyried tystiolaeth a materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni'n ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achosion yn ymuno â'r cyfarfod ac yn amlinellu'r achos pryder a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
- Caiff y Panel Adolygu Achos holi'r Swyddog Achosion;

- Gofynnir i'r myfyriwr roi ei farn/barn ynghylch yr achos pryder a godwyd a chanfyddiadau'r ymchwiliad;
  - Caiff y Panel Adolygu Achos holi'r myfyriwr. Bydd cyfle hefyd i'r myfyriwr ofyn unrhyw gwestiynau;
  - Bydd unrhyw dystion yn ymuno â'r cyfarfod a gofynnir iddynt wneud datganiad mewn cysylltiad â'r achos pryder;
  - Caiff y Panel Adolygu Achos holi unrhyw dystion;
  - Bydd unrhyw dystion yn gadael y cyfarfod;
  - Gofynnir i'r Swyddog Achosion wneud datganiad terfynol;
  - Gofynnir i'r myfyriwr wneud datganiad terfynol;
  - Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion adael er mwyn caniatáu i'r Panel Adolygu Achos ystyried ei benderfyniad.
  - Gwahoddir y myfyriwr (ac unrhyw berson a ddaw'n gwmni) a'r Swyddog Achosion i ddod yn ôl i'r cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn eu hysbysu ar lafar am benderfyniad y Panel. Bydd y myfyriwr yn gallu cyflwyno gosodiad ychwanegol ynghylch y penderfyniad.
- 1.8 Er gall tystion fod yn rhan o'r broses, disgwylir fel arfer yr ymgynghorir â'r holl dystion yn rhan o'r broses ymchwilio fel y'i nodir yn y Polisi Addasrwydd i Astudio fel bod yr holl dystiolaeth ar gael i'r panel ystyried yr achos yn fanwl yn y cyfarfod o'r Panel Adolygu Achos. Pan fo tystion yn cymryd rhan, hysbysir pob parti am enwau'r tystion a fydd yn bresennol cyn y cyfarfod o'r panel. Gofynnir i'r holl bartion a ydynt yn bwriadu galw tystion i'r cyfarfod o'r panel.
- 1.9 Bydd modd cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog. Gall pob parti ofyn am hyn.
- 1.10 Caiff pob parti perthnasol wybod yn ffurfiol yn ysgrifenedig am ganlyniad yr achos ymhen pum diwrnod gwaith clir i ddyddiad y Panel Adolygu Achos.